**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 2555

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004

## RHAN 4

Lwfansau Eraill

**Lwfansau gofal**

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff awdurdod tân ddarparu ar gyfer talu lwfans ("lwfans gofal") i aelod ar gyfer unrhyw dreuliau o ran gofalu am blant neu ddibynyddion sy'n angenrheidiol eu tynnu wrth i'r aelod hwnnw gyflawni ei ddyletswyddau fel aelod.

(2) Wrth ddarparu o dan baragraff (1), rhaid i awdurdod tân beidio â darparu ar gyfer talu—

(a) lwfans gofal i aelod y mae ganddo hawl i gael lwfans cadeirydd awdurdod tân neu lwfans is-gadeirydd awdurdod tân sy'n ffurfio swm sy'n fwy na'r cyfanswm a bennir o dro i dro yn ysgrifenedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) lwfans gofal mewn perthynas ag unrhyw blentyn dros bymtheg oed neu ddibynnydd onid yw'r aelod yn bodloni'r awdurdod tân bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu'r dibynnydd a bod hynny wedi peri i'r aelod dynnu treuliau a oedd yn angenrheidiol mewn perthynas â gofal y plentyn hwnnw neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau'r aelod hwnnw fel aelod;

(c) lwfans gofal i fwy nag un aelod ynglyn â gofalu am yr un plentyn neu ddibynnydd; neu

(ch) mwy nag un lwfans gofal i unrhyw aelod nad yw'n gallu dangos, er bodlonrwydd rhesymol yr awdurdod, fod yr aelod wedi gorfod gwneud trefniadau ar wahân i ofalu am blant neu ddibynyddion gwahanol.

(3) At ddibenion y flwyddyn sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, ac sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2005—

(a) ni fydd cyfanswm y lwfans gofal sy'n daladwy i gadeirydd yn fwy na £678;

(b) ni fydd cyfanswm y lwfans gofal sy'n daladwy i is-gadeirydd yn fwy na £529; ac

(c) ni fydd cyfanswm y lwfans gofal sy'n daladwy i aelod yn fwy na £185.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 14, ni fydd cyfanswm y lwfans gofal sy'n daladwy—

(a) i gadeirydd ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006 yn fwy na £1,344;

(b) i is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006 yn fwy na £1,050; ac

(c) i aelod ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006 yn fwy na £366.

(5) At ddibenion y blynyddoedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny, ni fydd cyfanswm y lwfans gofal sy'n daladwy i gadeirydd, is-gadeirydd neu aelod (yn ddarostyngedig i reoliad 14) yn fwy na chyfanswm y lwfans hwnnw a oedd yn daladwy i'r swydd honno yn y flwyddyn flaenorol.

(6) Pan fo cyfnod swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod yn para am ran o flwyddyn yn unig, bydd hawl y cadeirydd, yr is-gadeirydd neu'r aelod yn hawl i gael tâl am y gyfran honno o'r lwfans

gofal sy'n daladwy i'r swydd honno sy'n cyfateb i nifer y dyddiau y daliwyd y swydd honno yn ystod y flwyddyn o'i chymharu â nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

(7) Pan fo aelod yn cael ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau fel cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod, yn unol â Rhan III o Ddeddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Rhan honno, ni fydd yr awdurdod tân yn talu'r lwfans gofal sy'n daladwy i'r swydd honno am y cyfnod yr oedd y cadeirydd, yr is-gadeirydd neu'r aelod wedi'i atal dros dro, neu wedi'i atal dros dro yn rhannol.